

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO
HARBWR PORTHCAWL

ARCHWILIO CYFRIFON Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR
31 MAWRTH 2022

Hysbysir drwy hyn, yn unolag adran 30 a 31 or Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 12 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, y bydd:

1. Unrhyw berson sydd â diddordeb, rhwng 29 Mehefin 2021 a 26 Gorffennaf 2022, gan gynnwys y ddau ddiwrnod yma, rhwng 9:00 a.m. ac 1:00 p.m. a rhwng 2:15 p.m. a 4:00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener, drwy gais i'r Adran Gyllid, Raven's Court, Lôn y Bragdy, Pen-y-bont ar Ogwr, yn gallu archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon uchod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau cysylltiedig. Dylid gwneud ceisiadau am wybodaeth yn y lle cyntaf i financialcontrol@bridgend.gov.uk.
2. Ar 27 Gorffennaf 2022 neu wedi hynny hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, ar gais unrhyw Etholwr ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon 2021-22 yn berthnasol iddi, bydd Mr Derwyn Owen yn rhoi cyfle i'r Etholwr neu ei gynrychiolydd ei holi ef ynglŷn â'r cyfrifon a chaiff unrhyw Etholwr o'r fath neu ei gynrychiolydd ddod gerbron yr Archwilydd a gwrthwynebu unrhyw rai o'r cyfrifon. Ni ellir mynegi unrhyw wrthwynebiad oni bai bod yr Archwilydd wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig ymlaen llaw am y gwrthwynebiad arfaethedig a'r sail ar yr hon y mae i gael ei wneud. Rhaid anfon yr hysbysiad ysgrifenedig hwn at Mr Derwyn Owen (derwyn.owen@audit.wales), yn 24 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9LJ a rhaid anfon copi ohono i'r Cyngor yn y cyfeiriad isod.

Carys Lord
Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid
Raven's Court
Lôn y Bragdy
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4AP

Dyddiedig 09 Mehefin 2022